# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 2AIL TACHWEDD, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

(i gael mynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni)

Pwynt Cyswllt

**Natalie Lloyd Jones**

**01286 679490**

**NatalieLloydJones@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 25 Hydref 2021)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Dewi Owen
Anne Lloyd Jones
Mike Stevens

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Bob Tyrrell | Aberdyfi Community Council |
| David Williams | Member of Aberdyfi & Improvements Committee |
| Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Psygodfeydd Bae Ceredigion |
| Nigel Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi |
| Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi |
| Al Crisp | Outward Bound Trust Wales |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Cynghorydd Rob Triggs | Barmouth Town Council |

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. COFNODION** 4 - 7

a) Cadarnhau cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 2ail Fawrth 2021 fel rhai cywir

b) Materion yn codi

**4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 8 - 20

I ystyried yr adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**5. HARBOURMASTERS REPORT** 21 - 23

I ystyried adroddiad yr Harbwrfeistr.

**6. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

I ystyried materion ar gais yr Aelodau.

**7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

Nodi bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal 22ain o Fawrth 2022.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI 02/03/2021

**YN BRESENNOL:**

**Aelodau**: Cyng. Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Dewi Owen (Cyngor Gwynedd), Cyng. Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Cyng. Bob Tyrrell (Cyngor Tref Aberdyfi), Al Crisp (Outward Bound Wales), Cyng David Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi) a Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi)

Swyddogion: Barry Davies (Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig), Arthur Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), William A Stockford (Harbwrfeistr Aberdyfi), Oli Simmons (Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi), Mererid Watt (Cyfieithydd), Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet - Economi), Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi ac Chymuned).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/22.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/22.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5ed o Fawrth, 2019, fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau.**

Rhoddwyd diweddariad ar faterion rheolaethol yr harbwr gan y Uwch Swyddog Harbyrau gan bwysleisio bod y pandemig wedi cael effaith ar ffigyrau ar bob harbwr yng Ngwynedd. Ategwyd hyn gan y Cadeirydd.

Parhaodd i ddiweddaru'r aelodau'r Pwyllgor ar y pwyntiau canlynol:

- Adroddwyd ar yr angorfeydd blynyddol a'r lleihad a welwyd y flwyddyn 2020 sef bod 47 o gychod o gymharu â 68 yn 2019. Rhagdybiwyd bod llawer o bobl wedi penderfynu peidio defnyddio eu cychod yn ystod y cyfnod hwn.
- Adroddwyd ar y niferoedd o gychod a chychod dwr personol y cofrestrwyd gan nodi bod cynnydd wedi bod yn niferoedd cychod dwr personol.

- Cyfeiriwyd at yr adroddiad gan nodi bod yr holl ystadegau perthnasol wedi eu nodi fan hyn, a chroesawyd cwestiynau ar y rhain.

Trafodwyd y Cod Diogelwch Morwrol a gofynnwyd i'r aelodau i roi gwybod i'r Gwasanaeth os bydd unrhyw sylwadau ynghylch hyn. Parhawyd i drafod sefyllfa staff yr harbwr, gan ddiolch iddynt am eu gwaith dros y cyfnod clog. Nodwyd eu bod wedi parhau i weithio drwy gydol y pandemig er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd ag diogelwch yr harbwr.

Mewn perthynas ag sefyllfa rheoliadau Covid-19, nodwyd bod arwyddion o amgylch yr harbwr wedi eu gosod i helpu gyda chydymffurfiad ac i sicrhau iechyd staff.

Croeswyd yr Harbwrfeistr Cynorthwyol ar ei benodiad ar gytundeb parhaol erbyn hyn. Parhawyd i nodi bod ei gyfraniad wedi bod yn allweddol i gynorthwyo'r Harbwrfeistr dros y cyfnod anodd hwn. Ar ben y penodiad hwn, nododd yr Uwch Swyddog Harbyrau bod bwriad i benodi 2 swyddog traeth eleni gan eu bod yn rhagweld y bydd llawer iawn o bobl yno dros yr haf eleni.

Mewn perthynas â materion ariannol, nodwyd nad oedd ffigyrau cyfredol ar gael gan yr uned cyllid hyd hyn, fodd bynnag sicrhawyd y bydd y rhain ar gael i Aelodau yn fuan. Diweddarwyd ar y sefyllfa ariannol gan nodi bod incwm yn ddifrifol o ganlyniad i niferoedd llai o gychod a rhagwelid y bydd ansicrwydd teithio yn cael effaith ar hyn eleni. Ategwyd at hyn gan nodi bod aelodau'r Cyngor wedi cefnogi a gostwng targedau incwm i gymryd ystyriaeth heriau'r diwydiant morwrol.

Diolchwyd i'r Harbwrfeistr A'r Cymhorthydd Harbyrau am y gwaith llynedd mewn cyfnod prysur iawn er ei fod yn dymor byr. Atgyfnerthwyd pwysigrwydd eu swyddi mewn perthynas â chadw'r harbyrau a thraethau yn saff.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol;

- Diolchwyd i'r holl staff harbyrau gan Aelodau ABC.
- Ategwyd bod yr ardal wedi profi nifer uchel iawn o ymwelwyr a rhagwelir y bydd hyn yn digwydd eto eleni a bydd staff yr harbwr yn brysur iawn, pwysleisiwyd eu bod angen pob cefnogaeth.
- Cydymdeimlwyd a'r adran gan fod incwm yn amlwg wedi lleihau oherwydd y cyfyngiadau sydd wedi bod.
- Derbyniwyd bod angen codi incwm fodd bynnag cynigwyd byddai cadw ffioedd yr un fath yn cynyddu'r nifer fydd yn talu.

Mewn ymateb i rai sylwadau nodwyd;

- Bod y Cyngor yn gefnogol iawn i sefyllfa ariannol yr harbyrau a bod sawl cyfarfod wedi bod er mwyn trafod dulliau i ymateb i'r cyfnod ôl cyfyngiadau.
- Mai prif ffocws yr haf yma fydd sicrhau diogelwch ymwelwyr i'r ardaloedd harbyrau a thraethau.
- Cadarnhawyd bod y Cyngor yn gefnogol iawn gyda nifer o gyfarfodydd yn digwydd i edrych ar sut i ymateb i agor i fyny a'r niferoedd o ymwelwyr ym mhob rhan o Wynedd.
- Ategwyd bod cefnogaeth dau aelod staff haf yma rhyddhau aelod o staff i fod ar y dŵr yn fwy rheolaidd i gadw trefn
- Nodwyd mai cyfiawnhad ar gyfer codi ffioedd oedd cynnal y Gwasanaeth ac i annog pobl i gofrestru am y flwyddyn.
- Ategwyd bod pobl yn cael eu hybu i dalu ar-lein neu'n electroneg gan nad oes modd gofrestru yn y swyddfa harbwr.

## 6. ADRODDIAD YR HARBWRFEISTR

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Harbwrfeistr yn nodi'r prif bwyntiau ar y materion gwiethredol fel a ganlyn:

- Nodwyd bod staff wedi gweithio drwy'r cyfnod pandemig â'i fod yn eithriadol o brysur. Ategwyd bod heriau wedi codi wrth sicrhau bod pawb yn deall peryglon ar yr Aber.
- Gwnaed llawer o wait hi sicrhau diogelwch y bobl drwy sicrhau pellter cymdeithasol a gosod arwyddion, ategwyd bod yr adran wedi darparu deunyddiau priodol o ran PPE i'r staff.
- Cynigwyd dosbarthu fersiwn ddigidol o siart yr harbwr i weld lleoliadau'r AEC unwaith bydd fersiwn terfynol
- Rhoddwyd trosolwg ar waith cynnal a chadw amrywiol sydd wedi digwydd dros y cyfnod.
- Nodwyd bod partneriaeth cydweithio efo Outward Bounds a bod prosiect yn cael ei redeg ganddynt.
- Mewn perthynas â Chanolfan Dyfi, nodwyd nad oedd newidiadau ond bod man addasiadau o fewn y ganolfan wedi bod er mwyn cwrdd ag anghenion.
- Nodwyd bod yr adran yn disgwyl am newyddion efo codi cyfyngiadau gan fod ceisiadau gan PWC Gwynedd, Clwb Jetski, ayyb. Wedi dod i gynnal digwyddiadau.
-

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Diolchwyd i'r Harbwrfeistr am ei holl waith.
- Holwyd a oes cynllun gwaredu a thywod eleni
- Ategwyd aelod nad oes llawer o dywod eleni gan fod y gwynt wedi ei symud yn ôl, parhaodd i atgyfnerthu pwysigrwydd wal y cei gan ei fod wedi difrodi.
- Diolchwyd am y cynlluniau ar y llithrfa gan fod lansio o Fae'r Eglwys wedi bod yn rhwystredig
- Holwyd beth oedd cynlluniau ar gyfer trin y wal wrth yr hen lithrfa'r bad achub gan fod crac amlwg yno.
- Gofynnwyd a oes unrhyw gynlluniau i glirio'r promenâd a'r maes parcio yn fuan.
- Tynnwyd sylw'r swyddogion at gyflwr gwael y rheiliau rhwng y maes parcio a'r promenâd, gofynnwyd a oedd hyn yn fater i'r harbwr ynteu adran arall.

Mewn ymateb, nododd yr Harbwrfeistr y canlynol:

- Nad oes cynlluniau tywod ar hyn o bryd gan nad ydy'n blaenoriaeth, fodd bynnag bydd adolygiad i'r sefyllfa os bydd yn gwaethygu. Ategodd bod arian wedi mynd ar amddiffyn wal y cei a bod diffyg cyllid.
- Ategodd bod yr afon yn symud a thywod yn symud fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol.
- Nododd bod yr adran YGC yn rheoli'r gwaith adfer y cei ar ran y Cyngor ac mae'r cyflwr yn parhau i gael ei fonitro. Ategodd bod hyn wedi mynd allan i dendr unwaith eto.
- Mewn perthynas â'r crac yn y wal, nododd mai adran YGC sy'n ei archwilio bob tri mis a'u bod yn gyfrifol am gynnal a chadw.
- Bydd gwaith clirio yn digwydd yn gymharol fuan ar y promenâd a'r maes parcio.
- Nododd bydd y rheiliau yn cael eu trin pan fydd cyllid ar gael, ond yn y cyfamser bydd hwn yn cael ei fonitro rhag gwaethygu.

## 7. UNRHYW FATER ARALL

Datgan bob cydymdeimlad ar golli Brian Bates yn ddiweddar, aelod ffyddlon o'r pwyllgor ac yn cyfrannu'n sylweddol, bob tro yn sgwrsio a rhoi barn ac arbenigedd. Gwylwyr y glannau am flynyddoedd, cyfraniad lleol sylweddol. Colli ei gymeriad. Fel gwasanaeth morwrol i'r gymuned Aberdyfi.

## 8. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Tachwedd 2ail wedi ei glustnodi drwy Bwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth. Bydd y dyddiad yn cael ei gylchredeg unwaith fydd y calendr yn cael ei gadarnhau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 11:50am

| CYFARFOD | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
|---|---|
| DYDDIAD | 2 Tachwedd 2021 |
| TEITL | Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr |
| AWDUR | Uwch Swyddog Harbyrau |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

**2. Angorfeydd Aberdyfi a Chofrestru Cychod**

2.1 Roedd 76 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn harbwr Aberdyfi yn 2021. Mae hyn yn cymharu â 47 o gychod yn 2020.

2.2 Yn gyffredinol, wrth gymharu holl Harbyrau Cyngor Gwynedd, mae cynnydd wedi bod yn nifer y cwsmeriaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ym mhob un o'r harbyrau. Mae'r cynnydd yn nifer y cychod ar angorfeydd yn yr harbyrau yn adlewyrchu'r llacio graddol ar gyfyngiadau cyfnod clo y Coronafeirws yng Nghymru.

2.3 Y tymor hwn, rhoddodd y Gwasanaeth gyfle i aelodau'r cyhoedd gofrestru cychod pŵer ar-lein drwy wefan Cyngor Gwynedd.

2.4 Cafodd 1302 o Fadau Dŵr Personol (beiciau dŵr) eu cofrestru ar-lein ac yn bersonol.

2.5 Cofrestrwyd 1308 o Gychod Pŵer ar-lein ac yn bersonol.

2.6 Roedd y ffigyrau uchod yn dangos fod cyfanswm o 2610 o gychod wedi eu cofrestru yng Ngwynedd.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.1.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn gyda gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Aberdyfi.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Nid yw'r lefel staffio yn harbwr Aberdyfi wedi newid ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor. Mae'r harbwrfeistr yn parhau i ymgymryd â'r swyddogaethau sy'n ofynnol i sicrhau gweithrediadau diogel yn yr harbwr. Caiff yr Harbwrfeistr ei gynorthwyo gan gymhorthydd yr harbwr.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi gallu galw ar staff a leolir yn harbyrau Abermaw a Phorthmadog i gynorthwyo gydag unrhyw waith yn harbwr Aberdyfi, pan fo angen.

4.1.1 Y tymor yma penodwyd dau warden traeth i helpu staff yr harbwr i oruchwylio rheolaeth ddiogel o'r gweithgareddau a gynhaliwyd ar ac o'r prif draeth yn Aberdyfi, gan weithio o gaban bach ger Clwb Hwylio Dyfi. Dymuna'r Gwasanaeth gofnodi ei werthfawrogiad o'r gwaith a wnaed ganddynt yn ystod tymor prysur yr haf.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Bydd y Swyddog Morwrol yn darparu crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd angen ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Goleufeydd
- Cynnal a chadw angorfeydd Ymwelwyr
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl yr Harbwr
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau
- Cynnal a chadw offer a chyfarpar

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2022/23.**

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Aberdyfi, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2022/23, mae'r gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, nid yw'r Gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad o'r cyfraddau y dylai eu gweithredu.

**6. Adran y Porthladdoedd - Ymgynghoriad**

**Papur Ymgynghori'r Adran Drafnidiaeth:** Dymuna'r Gwasanaeth ddod a phapur ymgynghori'r Adran Drafnidiaeth, "Strengthening enforcement of the dangerous use of recreational and personal watercraft” i sylw aelodau'r Pwyllgor.

Yn ei hanfod, mae'r papur ymgynghori yn cynnig newid deddfwriaeth i ddod â badau dŵr hamdden a phersonol i mewn i sgôp Deddf Llongau Masnach 1995, i sicrhau ymarfer diogel. Mae'r ddogfen ar gael i'w gweld ar wefan llywodraeth y Deyrnas Unedig drwy ddilyn y ddolen isod:
www.gov.uk/government/consultations/strengthening-enforcement-of-the dangerous-use-of-recreational-and-personal-watercraft

Dylid anfon sylwadau ar y papur at maritimesafety@dft.gov.uk.

Daw'r ymgynghoriad i ben ar y diwrnod cyn y cynhelir Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, am 11:45pm ar 1 Tachwedd 2021. Byddwn yn sicrhau bod argymhelliad y Pwyllgor hwn yn cael ei gyflwyno mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

**7. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Aberdyfi yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

## ***Uned Morwrol / Maritime Unit***

### ***Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations***

| Blwyddyn<br>Year | Harbwr<br>Aberdyfi<br>Harbour | Harbwr<br>Abermaw<br>Harbour | Harbwr<br>Porthmadog<br>Harbour | Harbwr<br>Pwllheli/<br>Hafan | Morfa<br>Bychan | Traethau<br>Gwynedd<br>Beaches | Swyddfa<br>Office /<br>Ffos Ar<br>Lein | Cyfanswm<br>Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 | 27 Aberdyfi<br>4 Tywyn | 69 | 35 | 49 Total Boat<br>Care<br>56 Hafan | 183 | 101 Abersoch<br>20 Machroes<br>4 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>2 Aberdaron | 174 | 734 |
| 2017 | 28 Aberdyfi<br>6 Tywyn | 68 | 45 | 55 Total Boat<br>Care<br>65 Hafan | 165 | 122 Abersoch<br>10 Machroes<br>12 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>1 Aberdaron | 151 | 738 |
| 2018 | 50 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 74 | 52 | 73 Total Boat<br>Care<br>105 Hafan | 200 | 188 Abersoch<br>9 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>1 Aberdaron | 160 | 923 |
| 2019 | 32 Aberdyfi<br>5 Tywyn | 78 | 55 | 43 Total Boat<br>Care<br>116 Hafan | 184 | 137 Abersoch<br>5 Machroes<br>14 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>0 Aberdaron | 153 | 827 |
| 2020 | 30 Aberdyfi | 70 | 41 | 163 Hafan | 178 | 236 Abersoch<br>23 Machroes<br>11 Nefyn | 93 | 845 |
| 2021 | 16 Aberdyfi | 65 | -- | 142 Hafan | 217 | 78 Abersoch<br>7 Machroes<br>11 Nefyn | 766 | 1302 |

## ***Uned Morwrol / Maritime Unit***
## ***Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations***

| Blwyddyn Year | Harbwr Aberdyfi Harbour | Harbwr Abermaw Harbour | Harbwr Porthmadog Harbour | Harbwr Pwllheli Harbour | Morfa Bychan | Traethau Gwynedd Beaches | Swyddfa a Ffos / Ar Lein | Cyfanswm Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 | 58 Aberdyfi<br>7 Tywyn | 81 Abermaw | 37 | 115 Total<br>Boat Care<br>4 Harbwr<br>119 Hafan | 31 | 101 Abersoch<br>71 Machroes<br>27 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>10 Aberdaron | 336 | 1011 |
| 2017 | 53 Aberdyfi<br>9 Tywyn | 66 Abermaw | 37 | 103 Total<br>Boat Care<br>3 Harbwr<br>117 Hafan | 29 | 125 Abersoch<br>40 Machroes<br>48 Morfa Nefyn<br>19 Nefyn<br>11 Aberdaron<br>6 Trefor | 289 | 955 |
| 2018 | 53 Aberdyfi<br>14 Tywyn | 75 Abermaw | 38 | 112 Total<br>Boat Care<br>177 Hafan | 34 | 161 Abersoch<br>31 Machroes<br>52 Morfa Nefyn<br>15 Nefyn<br>5 Aberdaron | 290 | 1057 |
| 2019 | 41 Aberdyfi a<br>16 Tywyn | 66 Abermaw | 33 | 97 Total<br>Boat Care<br>172 Hafan | 30 | 89 Abersoch<br>20 Machroes<br>60 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>12 Aberdaron | 244 | 894 |
| 2020 | 51 Aberdyfi | 46 Abermaw | 16 | 281 Hafan | 24 | 179 Abersoch<br>29 Machroes<br>57 Nefyn | 152 | 835 |
| 2021 | 48 Aberdyfi | 64 | 2 | 168 Hafan | 26 | 105 Abersoch<br>39 Machroes<br>66 Nefyn | 790 | 1308 |

# <u>*Uned Morwrol / Maritime Unit*</u>

***Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics***

| ***Harbwr***<br>***Harbour*** | ***Nifer o Angorfeydd***<br>***Available no of moorings*** | ***Preswylydd***<br>***Occupancy*** | ***Preswyl yng Ngwynedd***<br>***Residing in Gwynedd*** | ***Eraill***<br>*Others* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| *Aberdyfi 2016* | *120* | *79 (65.8%)* | *36 (45.6%)* | *43 (54.4%)* |
| *Aberdyfi 2017* | *120* | *78 (65.0%)* | *36 (46.2%)* | *42 (53.8%)* |
| *Aberdyfi 2018* | *120* | *74 (61.7%)* | *37 (50.0%)* | *37 (50.0%)* |
| *Aberdyfi 2019* | *120* | *68 (56.7%)* | *32 (47.1%)* | *36 (52.9%)* |
| *Aberdyfi 2020* | *120* | *47 (39.2%)* | *23 (48.9%)* | *24 (51.1%)* |
| ***Aberdyfi 2021*** | ***120*** | ***76 (63.3%)*** | ***34 (44.7%)*** | ***42 (55.3%)*** |
| | | | | |
| *Abermaw 2016* | *140* | *88 (62.9%)* | *60 (68.2%)* | *28 (31.8%)* |
| *Abermaw 2017* | *140* | *86 (61.4%)* | *59 (68.6%)* | *27 (31.4%)* |
| *Abermaw 2018* | *140* | *69 (49.3%)* | *44 (63.8%)* | *25 (36.2%)* |
| *Abermaw 2019* | *140* | *70 (50.0%)* | *45 (64.3%)* | *25 (35.7%)* |
| *Abermaw 2020* | *140* | *31 (22.1%)* | *24 (77.4%)* | *7 (22.6%)* |
| ***Abermaw 2021*** | ***140*** | ***54 (38.6%)*** | ***36 (66.7%)*** | ***18 (33.3%)*** |
| | | | | |
| *Porthmadog 2016* | *238* | *129 (54.2%)* | *47 (36.4%)* | *82 (63.6%)* |
| *Porthmadog 2017* | *238* | *135 (56.7%)* | *54 (40.0%)* | *81 (60.0%)* |
| *Porthmadog 2018* | *238* | *131 (55.0%)* | *54 (41.2%)* | *77 (58.8%)* |
| *Porthmadog 2019* | *238* | *130 (54.6%)* | *60 (46.2%)* | *70 (53.8%)* |
| *Porthmadog 2020* | *238* | *64 (26.9%)* | *30 (46.9%)* | *34 (53.1%)* |
| ***Porthmadog 2021*** | ***238*** | ***112 (47.1%)*** | ***42 (37.5%)*** | ***70 (62.5%)*** |
| | | | | |
| *Pwllheli 2016* | *114* | *58 (50.9%)* | *27 (46.6%)* | *31 (53.4%)* |
| *Pwllheli 2017* | *81* | *60 (74.1%)* | *28 (46.7%)* | *32 (53.3%)* |
| *Pwllheli 2018* | *81* | *55 (67.9%)* | *27 (49.1%)* | *28 (50.9%)* |
| *Pwllheli 2019* | *81* | *58 (71.6%)* | *40 (69.0%)* | *18 (31.0%)* |
| *Pwllheli 2020* | *81* | *50 (61.7%)* | *36 (72%)* | *14 (28%)* |
| ***Pwllheli 2021*** | ***81*** | ***50 (61.7%)*** | ***36 (72%)*** | ***14 (28%)*** |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Hafan 2016* | *409* | *287 (70.1%)* | *55 (19.2%)* | *232 (80.8%)* |
| *Hafan 2017* | *409* | *306 (74.8%)* | *57 (18.6%)* | *249 (81.4%)* |
| *Hafan 2018* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2019* | *409* | *299 (73.1%)* | *57 (19.1%)* | *242 (80.9%)* |
| *Hafan 2020* | *409* | *288 (70.4%)* | *40 (13.9%)* | *248 (86.1%)* |
| ***Hafan 2021*** | ***409*** | ***378 (92.4%)*** | ***77 (20.4%)*** | ***301 (79.6%)*** |
| | | | | |
| *Doc Fictoria 2016* | *100* | *92 (92.0%)* | *19 (20.7%)* | *73 (79.3%)* |
| *Doc Fictoria 2017* | *100* | *92 (92.0%)* | *16 (17.4%)* | *76 (82.6%)* |
| *Doc Fictoria 2018* | *100* | *90 (90.0%)* | *21 (23.3%)* | *69 (76.7%)* |
| *Doc Fictoria 2019* | *100* | *94 (94.0%)* | *20 (21.3%)* | *74 (78.7%)* |
| *Doc Fictoria 2020* | *100* | *90 (90%)* | *22 (24.4%)* | *68 (75.6%)* |
| ***Doc Fictoria 2021*** | ***100*** | ***89 (89%)*** | ***21 (23.6%)*** | ***68 (76.4%)*** |
| | | | | |

# *Uned Morwrol*

**Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwylio a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List**

| ***Harbwr/Harbour Marina*** | ***Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings*** | ***Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring*** | ***Nifer Cychod Pŵer Total number Powerboats*** | ***Nifer Cychod Hwylio Total number sailing boats*** | ***Canran (%) Pŵer V's hwylio Percentage Power v's Sail*** |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Aberdyfi 16 | 120 | 79 | 55 | 24 | 69.6% Pwer<br>30.4% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 17 | 120 | 78 | 56 | 22 | 71.8% Pwer<br>28.2% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 18 | 120 | 74 | 55 | 19 | 74.3 % Pwer<br>25.7% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 19 | 120 | 68 | 54 | 14 | 79.4% Pwer<br>20.6% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 20 | 120 | 47 | 44 | 3 | 93.6% Pwer<br>6.4% Hwylio |
| **Harbwr Aberdyfi 21** | **120** | **76** | **66** | **10** | **86.8% Pwer<br>13.2% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Abermaw 16 | 140 | 88 | 59 | 29 | 67.0% Pwer<br>33.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 17 | 140 | 86 | 55 | 31 | 64.0% Pwer<br>36.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 18 | 140 | 69 | 45 | 24 | 65.2% Pwer<br>34.8% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 19 | 140 | 70 | 44 | 26 | 62.9% Pwer<br>37.1% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 20 | 140 | 31 | 21 | 10 | 67.7% Pwer<br>32.3% Hwylio |
| **Harbwr Abermaw 21** | **140** | **54** | **40** | **14** | **74.1% Pwer<br>25.9% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Porthmadog 16 | 238 | 129 | 41 | 88 | 31.8% Pwer<br>68.2% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 17 | 238 | 135 | 42 | 93 | 31.1% Pwer<br>68.9% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 18 | 238 | 131 | 40 | 91 | 30.5% Pwer<br>69.5% Hwylio |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Porthmadog 19 | 238 | 130 | 42 | 88 | 32.3% Pwer<br>67.7% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 20 | 238 | 64 | 22 | 42 | 34.4% Pwer<br>65.6% Hwylio |
| **Harbwr Porthmadog 21** | **238** | **112** | **30** | **82** | **26.8% Pwer<br>73.2% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Pwllheli 16 | 114 | 58 | 18 | 40 | 31.0% Pwer<br>69.0% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 17 | 81 | 60 | 19 | 41 | 31.7% Pwer<br>68.3% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 18 | 81 | 55 | 29 | 26 | 52.7% Pwer<br>47.3% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 19 | 81 | 58 | 26 | 32 | 44.8% Pwer<br>55.2% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 20 | 81 | 50 | 23 | 27 | 46% Pwer<br>54% Hwylio |
| **Harbwr Pwllheli 21** | **81** | **50** | **26** | **24** | **52% Pwer<br>48% Hwylio** |
| | | | | | |
| Hafan Pwllheli 16 | 409 | 287 | 137 | 150 | 47.7% Pwer<br>52.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 17 | 409 | 306 | 144 | 162 | 47.1% Pwer<br>52.9% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 18 | 409 | 292 | 150 | 142 | 51.4% Pwer<br>48.6% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 19 | 409 | 299 | 133 | 166 | 44.5% Pwer<br>55.5% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 20 | 409 | 288 | 140 | 148 | 48.6% Pwer<br>51.4% Hwylio |
| **Hafan Pwllheli 21** | **409** | **378** | **192** | **186** | **50.8% Pwer<br>49.2% Hwylio** |
| | | | | | |
| Doc Fictoria 16 | 100 | 92 | 34 | 58 | 37.0% Pwer<br>63.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 17 | 100 | 92 | 28 | 64 | 30.4% Pwer<br>69.6% Hwylio |
| Doc Fictoria 18 | 100 | 90 | 49 | 41 | 54.4% Pwer<br>45.6% Hwylio |
| Doc Fictoria 19 | 100 | 94 | 29 | 65 | 30.9% Pwer<br>69.1% Hwylio |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Doc Fictoria 20 | 100 | 90 | 26 | 64 | 28.9% Pwer<br>71.1% Hwylio |
| **Doc Fictoria 21** | **100** | **89** | **26** | **63** | **29.2% Pwer**<br>**70.8% Hwylio** |
| | | | | | |
| Cyfanswm 16 | 1121 | 733 | 344 | 389 | 46.9% Pwer<br>53.1% Hwylio |
| Cyfanswm 17 | 1088 | 757 | 344 | 413 | 45.4% Pwer<br>54.6% Hwylio |
| Cyfanswm 18 | 1088 | 709 | 367 | 342 | 51.8% Pwer<br>48.2% Hwylio |
| Cyfanswm 19 | 1088 | 719 | 328 | 391 | 45.6% Pwer<br>54.4% Hwylio |
| Cyfanswm 20 | 1088 | 570 | 276 | 294 | 48.4% Pwer<br>51.6% Hwylio |
| **Cyfanswm 21** | **1088** | **759** | **380** | **379** | **50.1% Pwer**<br>**49.9% Hwylio** |


# HARBWR ABERDYFI HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics


| | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod /** Number of Boats | 79 | 78 | 74 | 68 | 47 | 76 |
| **Cyfanswm Hydoedd** / Total LOA | 524.10 | 515.02 | 480.92 | 451.96 | 301.02 | 487.32 |
| **Cyfartaledd Hyd** / Average Length | 6.63 | 6.60 | 6.50 | 6.65 | 6.4 | 6.41 |
| **Cyfanswm Dyfnder** / Total Draught | 57.36 | 58.60 | 50.91 | 46.54 | 30.01 | 48.82 |
| **Cyfartaledd Dyfnder /** Average Draught | 0.73 | 0.75 | 0.69 | 0.68 | 0.64 | 0.64 |







# CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2021
# COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2021


| Harbwr<br>Harbour | Nifer o Gychod<br>Number of Boats | Cyfanswm Hydoedd<br>Total Overall Length | Cyfartaledd Hyd<br>Average Length | Cyfanswm Dyfnder<br>Total Draught | Cyfartaledd Dyfnder<br>Average Draught |
|---|---|---|---|---|---|
| **Abermaw** | **54** | **376.86** | **6.98** | **49.61** | **0.92** |
| **Aberdyfi** | **76** | **487.32** | **6.41** | **48.82** | **0.64** |
| **Porthmadog** | **112** | **902.60** | **8.06** | **111.13** | **1.01** |
| **Pwllheli** | **50** | **361** | **7.2** | **42.0** | **0.84** |
| | | | | | |
| Cyfansymiau holl harbrau<br>Totals of all harbours | **292** | **2127.78** | **28.65** | **251.86** | **3.41** |
| Cyfartaleddau holl harbrau<br>Averages of all harbours | **73** | **531.95** | **7.16** | **62.89** | **0.85** |

# Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr.
# Analysis of boat statistics at each harbour.


**Nifer o Gychod / Number of Boats**





**Cyfanswm Hyd / Total LOA**





**Cyfartaledd Hyd / Average LOA**





**Cyfanswm Dyfnder / Total Draught**




**Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught**




Please be advised that the bar is only passable 3 hours either side of high water.
N
Aberdyfi
Harbour Master's Office
YSM 4 Knots
Fl.Y.2s
No 3 South Spit
Q.G
No 5
Fl.G.4s
No 7
Fl.G.2s
Aberdyfi Outer Buoy
Iso W.4
Bar No1
Fl.G.5s
Aberdyfi Harbour
Phone 01654 767626
Mobile 07879 433148
VHF Ch 12 & 16
williamstockford@gwynedd.llyw.cymru
NOT FOR NAVIGATION
November 2021
Outer Buoy Lat 52° 32.000'N Long 004° 05.550'W
Bar Buoy No1 Off Station
Bar Buoy No2 Not deployed (seasonal)
No3 South Spit Lat 52° 32.116'N Long 004° 04.615'W
No5 Lat 52° 32.198'N Long 004° 04.053'W
No7 Lat 52° 32.256'N Long 004° 03.408'W
YSM 4 Knots Lat 52° 32.469'N Long 004° 02.861'W
Please contact the Harbour Office on arrival at the Outer Buoy for any updates to this chartlet

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **2 Tachwedd 2021** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **W.A.Stockford Harbwrfeistr Aberdyfi** |

H1 **Materion Mordwyo**

1.1 Mae llwybr y brif sianel fordwyo i harbwr Aberdyfi wedi bod yn cael ei fonitro gan staff yr harbwr drwy'r tymor. Darparwyd gwybodaeth am fordwyo i forwyr ddaw i'r harbwr a phryd bynnag mae staff wedi helpu cychod i lywio'r sianel drwy ddefnyddio cwch patrôl yr harbwr.

1.2 Ar hyn o bryd, mae dau 'Hysbysiad Lleol i Forwyr' yn weithredol yn Harbwr Aberdyfi.

1.2.1 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 18/20

Bwi Bar: Marc cymhorthydd Mordwyo Llaw Rhif 2 Port: Fl.R.5s. Mae'r bwi cymhorthydd mordwyo tymhorol ar safle 52º 32.076' N 004º 04.579' W wedi cael ei dynnu o'i le.

1.2.2 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 19/20

Bwi Bar: Marc cymhorthydd Mordwyo Llaw Rhif 2 Starboard: Fl.G.5s. Nid yw'r cymhorthydd mordwyo ar safle 52º 32.031' N 004º 04.606' W yn ei le. Mae'r golau wedi diffodd.

1.3 Ar 28/9/21 cynhaliwyd archwiliad o'r cymhorthion mordwyo yn Aberdyfi gan Arolygydd o Dŷ'r Drindod. Roedd y cymhorthion morwydo mewn cyflwr da ac effeithlon, ac eithrio am y cymhorthion a nodwyd uchod.

1.4 Mae'r Gwasanaeth wedi bod mewn cysylltiad gyda chontractwr lleol ynglŷn â chynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo. Bydd unrhyw waith sydd heb ei wneud yn cael ei gwblhau ar yr amod fod y contractwr ar gael a phan fo'r tywydd a'r llanw yn caniatáu.

1.5 Dymuna'r Gwasanaeth bwysleisio pwysigrwydd cysylltu â swyddfa'r harbwrfeistr yn Aberdyfi i gael gwybodaeth gyfredol am ddiogelwch mordwyo.

H2 **Materion Gweithredol**

2.1 Gyda llacio cyfyngiadau'r cyfnod clo yn niwedd mis Mawrth, cafodd y gwasanaeth rai dyddiau hynod o brysur gyda thywydd teg yn denu pobl i'r arfordir. Parhaodd y tueddiad yma drwy'r haf gyda dyddiau'r wythnos cyn brysured â'r penwythnosau os oedd rhagolygon am dywydd braf. Cyfrannodd yr ychwanegiad o ddau warden traeth yn Aberdyfi a thri warden traeth yn Nhywyn yn sylweddol tuag at reolaeth ddiogel o'r traethau yn Aberdyfi a Thywyn.

2.2 Tra bod y mwyafrif helaeth o ymwelwyr i'r ardal yn parchu amgylchedd yr harbwr, roedd cynnydd amlwg yn nifer y digwyddiadau o staff yn dioddef camdriniaeth eiriol neu ystumiau wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Mae gollwng ysbwriel yn ddi-esgus o gwmpas yr harbwr ac anwybodaeth ambell unigolyn o epidemig presennol Coronafeirws hefyd wedi bod yn bryder.

2.3 Adroddwyd am sawl mân ddigwyddiad ar ac oddi ar y dŵr ac fe wnaeth staff yr Uned Forwrol ymdrin yn llwyddiannus gyda'r rhain. Yn gyffredinol, roedd ymddygiad y defnyddwyr dŵr yn dda iawn gyda dim ond un digwyddiad a adroddwyd oedd yn

ymwneud ag un cwch pŵer i fyny'r afon ac fe ddeliwyd â hyn yn sydyn gan staff yr harbwr.

2.4 Gwelodd y Gwasanaeth gynnydd enfawr yn nifer y padl fyrddau sefyll gyda wardeniaid y traeth yn gyson yn rhoi cyngor i ddefnyddwyr am bwysigrwydd gwisgo cymorth hynofedd wrth arnofio ar yr afon. Atgoffwyd sawl defnyddiwr am bwysigrwydd cadw'r sianel fordwyo yn glir a'r risg sydd yn gysylltiedig gyda rhannu gofod dŵr.

2.5 Mae Ymddiriedolaeth yr Outward Bound wedi ail-ddechrau eu gweithgareddau yn rhannol yn unol â gweithdrefn gaeth Covid-19. Er nad ydynt yn gweithredu'n llawn eto, hyderir y byddant yn gallu gwneud hynny yn fuan. Mae'n bleser gweld pobl ifanc yn mwynhau anturio ar afon Dyfi unwaith eto.

2.6 Mae'r gweithgareddau pysgota masnachol yn parhau drwy fisoedd y gaeaf gydag un cwch, MFV Genesis, yn barod i bysgota yn ystod tymor y cregyn bylchog.

**H3 Cynnal a chadw**

3.1 Yn dilyn archwiliad o'r afon gan staff yr harbwr, sefydlwyd angorfeydd harbwr ar ddechrau'r tymor gan gontractwr angorfeydd ar gyfarwyddyd yr harbwrfeistr oedd yn gweithio gydag ef. Yn ogystal, archwiliwyd angorfeydd yr ymwelwyr ar yr un pryd.

3.2 Ail sefydlwyd yr arwyddion diogelwch mewn safleoedd strategol ar ôl y gaeaf ac maent wedi cael eu cynnal drwy'r haf i helpu rheoli'r arfordir yn ddiogel. Bellach mae gwaith wedi dechrau i dynnu a chadw'r holl offer a ddefnyddiwyd gan y staff traeth tymhorol. Bydd offer yn cael ei archwilio, ei lanhau a'i drwsio ble fo angen.

3.3 Cyn eu defnyddio yn ystod y tymor, fe wnaeth staff yr harbwr archwilio a chynnal a chadw'r offer sydd ar gwch patrôl yr harbwr. Cafodd peiriannau'r gwch hefyd eu cynnal a'u cadw a'u gwasanaethu gan gwmni lleol am gost o £1041.32 i'r Gwasanaeth.

3.3.1 Fel y daw'r tymor i'w derfyn, bydd cwch patrôl yr harbwr yn cael ei dynnu o'r dŵr, ei olchi ac yn derbyn gwasanaeth. Bydd unrhyw waith adfer yn cael ei gynnal cyn ail-lawnsio yn gynnar yn 2022. Cedwir y cwch yn lleol ar gyfer unrhyw waith arolwg o'r afon a'r bar ar sail lawnsio ac adfer.

3.5 Mae cynnydd diweddar yn nifer y carcasau ar y blaendraeth wedi arwain at sawl diwrnod o waith ymatebol gan y Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn gofyn os ydych yn gweld unrhyw gyrff anifeiliaid i chi roi gwybod iddynt cyn gynted â phosib.

**H4 Materion Eraill**

4.1 **Wal y Cei, Harbwr Aberdyfi:** Mae'r prosiect i adnewyddu wal bresennol y cei yn parhau i fynd rhagddo ac oedwyd gyda amserlen y gwaith oherwydd effaith pandemig y Coronafeirws.

Ail-dendrwyd y prosiect ac mae'r Uned Ymgynghoriaeth yn y broses o asesu'r holl dendrau sydd wedi eu cyflwyno. Hyderwn y gallwn roi diweddariad i'r Pwyllgor am ganlyniad yr asesiadau tendr yn y cyfarfod.

Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd blaenorol, bydd yn orfodol tynnu'r holl offer sy'n ymwneud â physgota o ochr y cei. Rydym eisoes wedi rhybuddio'r pysgotwyr am y gofyniad yma sawl gwaith.

4.2 **Lloc yr harbwr:** Ar hyn o bryd mae lloc yr harbwr yn amodol i'w adolygu ac rydym wedi ceisio cael arian drwy'r Grŵp Gweithredu Lleol ar Bysgodfeydd i hwyluso cyflenwad pŵer a dŵr i'r Lloc. Os fyddwn yn llwyddiannus, hyderir y bydd yr arian

yn helpu'r pysgotwyr masnachol sy'n gweithio o'r harbwr i lanhau a storio offer ar y safle. Yn ei dro, bydd hynny'n helpu i symud peth o'r offer pysgota o ochr cei'r harbwr.

4.3 **Bryn Llestair:** Mae'r cynlluniau i adnewyddu'r bont sy'n mynd dros rheilffordd Arfordir y Cambrian ac i ail-sefydlu'r mynediad ar droed i Fryn Llestair yn dilyn yr amserlen. Mae Network Rail wedi cytuno i'r gwaith ac mae'r 'Basic Assets Protecion Agreement' (BAPA) wedi ei gytuno a'i arwyddo gan Network Rail.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi cadarnhau nad oes angen Cais Cynllunio.

Bydd y gwaith archwilio cychwynnol o ategwaith y bont yn digwydd ar 10 Tachwedd 2021. Mae’r dyluniadau manwl yn cael eu cytuno ar hyn o bryd.

Unwaith fo'r dyluniad wedi ei gytuno, bydd wedyn yn cael ei roi allan i dendr a rhagdybir y bydd cyfnod dychwelyd o bedair wythnos. Bydd angen i'r tendr gynnwys elfen o hyblygrwydd o ystyried costau ansefydlog dur ac ynni ar hyn o bryd.

Bydd y bont a gofynion y gwaith cysylltiedig yn cael ei ymgymryd gan Ymgynghoriaeth Gwynedd ar ran yr Uned Forwrol..

Sicrhawyd bod arian ar gael gan Gyngor Gwynedd - £50k, ynghyd â'r Grŵp Gweithredu Lleol ar Bysgodfeydd - £30k. Ni fyddwn yn gwybod beth fydd union gost y bont newydd tan fo'r tendrau wedi eu cyflwyno. Mae ffioedd Ymgynghori ychwanegol wedi eu hariannu hyd yma o gyllideb Refeniw yr Uned Forwrol. Mae'n bosib iawn y bydd angen ffynonellau ariannu eraill i gwblhau'r prosiect.

Bydd y gwaith adnewyddu yn cael ei wneud mewn dau gam; tynnu'r bont bresennol a bydd angen Gorchymyn Cau'r Ffordd ar gyfer hyn. Gosod pont droed newydd - bydd hyn hefyd angen Gorchymyn Cau'r Ffordd. Byddwn yn cyhoeddi'r manylion fel bo'r prosiect yn datblygu.

## H5 Digwyddiadau

5.1 Cafodd mwyafrif y digwyddiadau a drefnwyd yn yr harbwr eleni eu canslo oherwydd effeithiau parhaus pandemig y Coronafeirws. Er hynny, cynhaliwyd digwyddiad nofio diweddar yn yr harbwr oedd yn llwyddiant. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau wedi eu cynnig ar gyfer tymor y gaeaf 21/22.

5.2 Carai'r Gwasanaeth atgoffa unrhyw drefnwyr o'r angen i gyd-gysylltu gyda'r Gwasanaeth ar y cyfle cyntaf posib os ydynt eisiau cynnal unrhyw ddigwyddiad a bod yn rhaid cael cadarnhad a chaniatâd cyn cynnal unrhyw ddigwyddiadau.